## F. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi chwe amcan i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth y dylid eu defnyddio i asesu'r effeithiau ar fioamrywiaeth. Gellid eu defnyddio hefyd i helpu i ddatblygu a llywio camau i gydymffurfio â dyletswydd A6. Rydyn ni wedi'u symleiddio fel set o gwestiynau i'ch helpu i gynnal yr asesiad o effeithiau.

Dylech ateb y cwestiynau hyn p'un a oes elfen rheoli tir i'ch cynnig ai peidio, er y bydd rhai yn arbennig o berthnasol os yw eich maes polisi yn ymwneud â rheoli tir mewn unrhyw ffordd.

Dylech fynd ati'n rhagweithiol i ystyried effeithiau posibl y cynnig ar fioamrywiaeth. Mae hwn yn un maes lle mae canlyniadau anfwriadol yn aml yn cael eu diystyru, naill ai oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu am ei bod yn anodd rhoi gwerth ariannol ar fioamrywiaeth.

At hynny, mae'r ddyletswydd yn gofyn inni fynd ati mewn ffordd gadarnhaol i chwilio am gyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, yn uniongyrchol (lle mae'r ymyriad yn cynnwys rheoli tir neu waith adeiladu) ac yn anuniongyrchol (er enghraifft, lle ceir cyfle i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd bioamrywiaeth). Wrth gynnal yr asesiad hwn, ystyriwch sut mae gwella bioamrywiaeth a gwneud ecosystemau'n fwy gwydn yn cyfrannu, y naill at y llall, at gyflawni nodau eich polisi neu'ch prosiect.

Bydd y Bil yn cyflwyno trefn diogelwch adeiladau newydd yng Nghymru sy'n ymdrin â'r modd y caiff adeiladau preswyl amlfeddiannaeth eu meddiannu a'u rheoli.

Bydd y drefn newydd yn cynnwys, gyda rhai eithriadau, pob adeilad preswyl sydd â dwy uned breswyl neu fwy, gan gynnwys rhannau preswyl adeiladau defnydd cymysg.

**Ystyriwch Gwestiynau 1 – 9 ar gyfer POB polisi:**

Ni fydd y Bil Diogelwch Adeiladu (Cymru) yn cael unrhyw effaith ar:

- Gwreiddio bioamrywiaeth
- Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n dulliau monitro
- Dulliau llywodraethu a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth
- Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn
- Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy gwydn
- Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd